

“O’r fesen fach i’r gangen uchaf, anelwn am ragoriaeth.”
YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL LLECHRYD

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Gwyliau/Absenoldebau Adeg Tymor

Caiff y llythyr hwn ei yrru at ein holl rieni i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â’r newid i’r polisi sy’n ymwneud â gwyliau adeg tymor.

Yng Nghymru, rydym am i’n holl ddisgyblion gyflawni llwyddiant felly mae’n bwysig fod rhieni yn gwneud eu gorau glas i gefnogi disgyblion i fynychu ysgol am y 190 o ddiwrnodau o fewn y flwyddyn academaidd lawn, fel y nodir yn Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol Blwyddyn Ysgol) (Cymru) 2006.

O dan y Ddeddf Addysg (1996), mae’n gyfrifoldeb i’r rhieni sicrhau fod eu mab/ merch yn mynychu ysgol.

Mae presenoldeb ysgol rheolaidd yn hanfodol a gall colli ysgol gael effaith arwyddocaol ar gyflawniad dros gyfnod o flwyddyn fel y nodir isod:

Presenoldeb 95-100%	Y cyfle gorau o lwyddiant	Mae’ch plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu.
Presenoldeb 90-95%	Wedi colli o leiaf 2 wythnos o ddysgu	Boddhaol. Efallai y bydd rhaid i’ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny â gwaith.
Presenoldeb 85-90%	Wedi colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu	Gallai’ch plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac mae angen cefnogaeth ychwanegol oddi wrthyich i ddal i fyny â gwaith.
Presenoldeb 80-85%	Wedi colli o leiaf 5½ wythnos o ddysgu	Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu.
Presenoldeb islaw 80%	Wedi colli o leiaf 7½ wythnos o ddysgu	Mae’ch plentyn yn colli addysg eang a chytbwys. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.

Er mwyn cefnogi ein hymgyrch i gynyddu presenoldeb y disgyblion, mae ERW, ein Consortiwm Addysg Rhanbarthol, wedi penderfynu na fydd Prifathrawon yn awdurdodi unrhyw absenoldebau a achosir gan wyliau adeg tymor. Golyga hyn y caiff absenoldebau a achosir gan ddisgyblion yn cymryd gwyliau adeg tymor, eu cofnodi fel rhai anawdurdodedig.

Hyderwn y gallwch gefnogi’r newid i’r polisi hwn a threfnu’ch gwyliau o gwmpas y 175 o ddiwrnodau y mae ysgolion ar gau yn ystod y penwythnosau a’r gwyliau, gan gynorthwyo ni i gefnogi’ch plentyn i gyflawni llwyddiant yn yr ysgol.

Yr eiddoch yn gywir,

M. G. Lewis
Pennaeth